# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Caerdydd

## Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2021

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.** | Ionawr 2022 | Adroddiad Drafft a gyhoeddwyd i'r Cyngor Rhagfyr 2021 |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2020-21 y Cyngor gan gynnwys:** | Derbyniwyd datganiad cyfrifon drafft yr awdurdod ar gyfer 2020-21 ar 15 Mehefin 2021. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Datganiadau ariannol craidd<br>• Cyfrifon Grŵp<br>• Cyfrif Refeniw Tai<br>• Awdurdod Harbwr Caerdydd<br>• Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd<br>• Prosiect Gwyrdd | 28 Hydref (7 Rhagfyr ar gyfer Prosiect Gwyrdd) | Mae archwiliadau wedi'u cwblhau a'u hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Archifau Morgannwg<br><br>Mae ein harchwiliad o'r uchod bellach wedi'i gwblhau. | | |
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg 2020-21** | Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 22 Mehefin 2021.<br>Mae ein harchwiliad o'r gronfa bensiwn bellach wedi'i gwblhau | 30 Tachwedd | Mae archwiliadau wedi'u cwblhau a'u hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd Ariannol** | Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20. | Gwanwyn/Haf 2021 | Adroddiad lleol terfynol a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2021<br><br>Adroddiad Cryno Cenedlaethol a gyhoeddwyd 30 Medi 2021 |
| **Cynllunio Adferiad** | Rydym yn bwriadu ategu a herio cynllunio adferiad mewn amser real. Gyda'n gilydd, mae angen sicrwydd arnom fod adferiad yn rhoi ystyriaeth briodol i'r llu o risgiau, ond hefyd ei fod yn manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer dyfodol gwahanol a chynaliadwy. Rydym wedi penderfynu disodli'r gwaith ar thema 'atal' a nodwyd gennym mewn cynlluniau archwilio gyda'r gwaith hwn ar gynllunio adferiad. | Llythyr a gyhoeddwyd 23 Ebrill 2021 | Wedi’i gwblhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Moderneiddio'r gweithlu** | Adolygiad yn edrych ar foderneiddio'r gweithlu, gan gysylltu â chynlluniau ystâd, digidol ac ôl-COVID y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. | Gorffennaf-Rhagfyr 2021 | Wedi'i gwblhau. Bydd yn sail ar gyfer Adolygiad Llamu Ymlaen. |

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LlCD)** | Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LlCD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Archwiliad adrodd ar welliannau** | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Cyhoeddwyd tystysgrif ar 22 Hydref 2021 | Wedi'i gwblhau |
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. | Cyflwyno i'r SCG 3 Chwefror 2022 | Mynd rhagddo |
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y | Dyddiad i'w gadarnhau | Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. | | |
| **Adolygiad dilynol ar hamdden** | Asesu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn ein hadroddiad gwasanaethau hamdden a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020. | Gwanwyn 2022 | Heb ddechrau eto |
| **Adolygiad dilynol ar reoli gwastraff** | Adolygiad dilynol i asesu cynnydd y Cyngor i ddatblygu ei strategaeth wastraff i helpu i leihau gwastraff a chyflawni'r targedau ailgylchu cenedlaethol. | Gwanwyn 2022 | Heb ddechrau eto |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio / ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith a gynlluniwyd yng Nghyngor Caerdydd |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Uniongyrchol** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol | Cyhoeddi yng Ngaeaf 2021-22 | Dod i gasgliadau canol mis Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022 | Na – gwaith yn cael ei gwblhau drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a detholiad o gyfweliadau dilynol |
| **Gwasanaethau Brys** | Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio | Cyhoeddi yng ngaeaf 2021-22 | Clirio, gyda chyhoeddiad ddiwedd Ionawr 2022 | Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwaith dilynol ar Bobl sy'n Cysgu Allan** | Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2020 | Amherthnasol | Amherthnasol | Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22 |
| **Tlodi** | Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi. | Hydref 2021 - Hydref 2022 | Gwaith maes | Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau | Hydref 2021 - Hydref 2022 | Gwaith maes | Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Cydnerthedd Cymunedol** | Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 - Hydref 2022 | Gwaith maes | Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Mae Estyn wedi gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllaw arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllaw sydd wedi'i ddiweddaru (a gyhoeddir ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu yn yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen gwneud unrhyw fireinio ychwanegol. | Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i ailddechrau tuag at ddiwedd tymor yr Hydref | Amherthnasol |
| **Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm** | Consortia rhanbarthol a chymorth awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm. | Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref - cyhoeddi ddechrau mis Chwefror | Amherthnasol |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gwiriad Sicrwydd Cenedlaethol 2020-21** | Mae AGC bellach wedi cyhoeddi pob llythyr gwirio sicrwydd<br>Mae AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad gwirio sicrwydd cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol | Wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |
| **Rhaglen 2022-23** | Bydd AGC yn cynnal rhaglen flynyddol o wiriadau sicrwydd, arolygiadau gwerthuso perfformiad ac arolygiadau sy'n seiliedig ar risg | Ebrill 2022-Mawrth 2023 | Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol** | Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. | Wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |
| **Gwaith dilynol** | Bydd AGC yn cynnal gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen. | Parhaus | Mae un arolygiad dilynol sy'n seiliedig ar risg wedi digwydd ac mae i'w gyhoeddi.<br><br>Mae dau wiriad sicrwydd dilynol ychwanegol wedi digwydd ac mae i'w cyhoeddi maes o law. |
| **Arolygiad** | Bydd gweithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen. | Yn ôl y gofyn | Ni threfnir unrhyw arolygiadau ar hyn o bryd (hyd at fis Ebrill 2022) |
| **Datblygiad** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol. | Ebrill 2022 | Ar waith |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020-21** | Adroddiad monitro blynyddol ar ffurf drafft ar hyn o bryd – mae hwn yn adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Iechyd Cymru | Rhagfyr 2021 | Ar waith |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhagfyr 2021 a Ionawr 2022 | Ar waith |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn | Rhagfyr 2021 |
| Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2021 |
| Gofalu am y Gofalwyr?<br>Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19 | Hydref 2021 |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Medi 2021 |
| Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG | Medi 2021 |
| Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus[1] | Medi 2021 |
| Adfywio Canol Trefi | Medi 2021 |
| Cyllid myfyrwyr | Awst 2021 |
| Offeryn data cyllid y GIG 2020-21 | Mehefin 2021 |
| Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |
| Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: gwaith dilynol | Mai 2021 |

[1] Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. Dros y chwe wythnos a ganlynodd, cyhoeddwyd pum sylwebaeth sector byr: Darlun o lywodraeth leol,Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** | Mai 2021 |
| **Yn ôl eich Doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol** | Ebrill 2021 |
| **Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19** | Ebrill 2021 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo/a gynllunir)[2]

| **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig** |
|---|---|
| **Sylwadau cyfrifon Llywodraeth Cymru** | Chwefror 2022 |
| **Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion llesiant** | Chwefror 2022 |
| **Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth** | Chwefror/Mawrth 2022 |
| **Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol** | Chwefror 2022 |
| **Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth trydydd sector** | Chwefror 2022 |
| **Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth gofal wedi'i chynllunio** | Mawrth 2022 |

[2] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn inni ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd.

| | |
|---|---|
| **Gweithlu Llywodraeth Cymru** | Chwefror/Mawrth 2022 |
| **Gwasanaethau orthopedig** | Mawrth 2022 |
| **Diwygio'r cwricwlwm** | Gwanwyn 2022 |
| **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** | Gwanwyn 2022 |
| **Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol** | Gwanwyn/haf 2022 |
| **Ymateb ac adferiad COVID / rheoli grantiau Llywodraeth Cymru - arall** | I'w gadarnhau |
| **Tai fforddiadwy** | I'w gadarnhau |
| **Seilwaith band eang** | I'w gadarnhau |
| **Rheoli perygl llifogydd** | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da yn y dyfodol

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwyliedig |
|---|---|
| **Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad Llamu Ymlaen ar gadernid sefydliadol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021** | Diwedd Ionawr 2022 |
| **Digwyddiad Taliadau Uniongyrchol (teitl i'w gadarnhau)** | 30 Mawrth 2022 |